



SGILLIAU BYWYD

GWASANAETHAU ARIANNOL: CYNILO A BENTHYCA >

Cynllun y sesiwn

CIPOLWGW

Bydd y sesiwn yma'n datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Byddan nhw'n edrych ar gynilo a benthyca, a goblygiadau'r naill a'r llall. Cafodd y cynnwys yma ei greu mewn partneriaeth â Tesco.



CYSYLLTIADAU ÂR CWRICWLWM

- ✓ Maes dysgu a phrofiad: Rhifedd a llesiant (Cymru)



CYFLEOEDD LLYTHRENNEDD, IAITH A

RHIFEDD

- ✓ Gwneud cyflwyniad i grŵp
- ✓ Dysgu termau allweddol



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint Gwasanaethau ariannol
- ✓ Taflen Sefydliadau cyngor ariannol
- ✓ Tafleini gwaith Rhybuddion ac Adduned Cynilo
- ✓ Taflen waith Astudiaethau achos (dewisol)



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Rheoli Arian – Deiliant Dysgu: Opsiynau cynilo a benthyca

DEILLIANNAU DYSGU

- ✓ Enwi'r gwasanaethau ariannol sy'n cael eu darparu gan fanciau a chymdeithasau adeiladu
- ✓ Deall manteision cynilo
- ✓ Deall manteision ac anfanteision benthyca

GWEITHGAREDDAU

GWEITHGAREDD	AMSER	TUDALEN
<u>Torri'r garw</u>	5 munud	<u>03</u>
<u>Osgoi dyled</u>	20 munud	<u>04</u>
<u>Manteision cynilo</u>	10 munud	<u>06</u>
<u>Cael benthyg arian</u>	20 munud	<u>07</u>
<u>Cyngor ariannol i bobl ifanc</u>	Yn dibynnu	<u>09</u>
<u>Dirwyn i ben</u>	10 munud	<u>11</u>

TORRI'R GARW >



AMSER

5 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint Gwasanaethau ariannol

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Esboniwch i'r dysgwyr y byddwch chi'n edrych yn y sesiwn yma ar wasanaethau banciau, ac ar fanteision ac anfanteision benthyca a chynilo arian.
2. I gyflwyno'r pwnc, ewch drwy'r termau allweddol sydd wedi'u rhestru ar sleid 2 y cyflwyniad Gwasanaethau ariannol.
3. Defnyddiwch y cwis cyflym ar sleid 3 i asesu dealltwriaeth y dysgwyr o ddyled. Gallech wneud hyn fel trafodaeth anffurfiol yn y dosbarth. Atebion:
C1. C (ar gwrs gradd tair blynedd – i dalu am gostau llety a chostau byw)
C2. D
C3. A



OSGOI DYLED >



AMSER

20 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint Gwasanaethau ariannol
- ✓ Siart troi/bwrdd gwyn
- ✓ Cyfrifiaduron â mynediad i'r rhyngwrwyd NEU dudalennau gwe wedi'u hargraffu (edrychwch ar gam 4)
- ✓ Taflen Sefydliadau cyngor ariannol



CYFLEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Rhoi enghreifftiau o wasanaethau ariannol sy'n cael eu darparu gan fanciau a chymdeithasau adeiladu

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Eglurwch i'r dysgwyr mai un ffordd o osgoi dyled ydy canolbwytio ar gynilo a rheoli arferion gwario. Trafodwch yr awgrymiadau ar sleid 4 y cyflwyniad ategol. Gofynnwch i'r dysgwyr:
 - Ydych chi'n cytuno â'r awgrymiadau hyn?
 - Ydych chi'n gallu meddwl am unrhyw beth arall i'w gynnwys?
2. Gofynnwch i'r dysgwyr beth ydy pwrpas banciau a chymdeithasau adeiladu. Eglurwch fod banciau a chymdeithasau adeiladu'n darparu llawer o wasanaethau, gan gynnwys rhoi benthg arian a chynnig cymhellion i gynilo.
3. Fel grŵp, mae angen i chi greu rhestr diagram gwe pry cop/ rhestr pwyntiau bwled o'r holl wasanaethau mae banciau a chymdeithasau adeiladu'n eu darparu y mae'r dysgwyr yn gallu meddwl amdany'n nhw. Gallech wneud hyn ar fwrdd gwyn neu siart troi.

Atebion posibl:

 - Morgeisi
 - Cyfrifon cynilo
 - Benthyciadau
 - Cardiau credyd a debyd
 - Cyngor ar dreth
 - Buddsoddiadau
4. Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio ymhellach i 2-3 o'r gwasanaethau hyn. Dylent nodi esboniad byr o ystyr pob un o'r gwasanaethau maen nhw'n eu dewis. Gallech gyfeirio'ch dysgwyr at y gwefannau sy'n cael eu hawgrymu ar frig tudalen 5.

Yn ddelfrydol, byddai'r gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar y rhyngwrwyd. Fodd bynnag, os nad oes modd i'ch dysgwyr fynd ar y rhyngwrwyd, gallech argraffu ychydig o dudalennau perthnasol ar gyfer y sesiwn.

GWEFANNAU A AWGRYMR

Tesco Bank: <https://www.tescobank.com/> (sgroliwch i lawr i 'All products')

NatWest: <https://personal.natwest.com/personal.html> (sgroliwch i lawr i 'Our Products')

HSBC: <https://www.hsbc.co.uk/>

5. Eglurwch i'r dysgwyr fod pobl yn dal yn gallu mynd i ddyled, er y gwasanaethau ariannol mae banciau a chymdeithasau adeiladu'n eu darparu. Weithiau mae'r gwasanaethau'n gallu arwain at ddyled, os ydyn nhw'n cael eu camreoli – er enghraifft, peidio â thalu benthyciadau neu ddyledion cardiau credyd yn ôl.
6. Trafodwch sleid 5 y cyflwyniad ategol, sy'n cynnig cyngor ar yr hyn y dylai rhywun ei wneud os yw'n mynd i ddyled.
7. Eglurwch nad banciau a chymdeithasau adeiladu ydy'r unig sefydliadau ariannol sy'n bodoli. Dangoswch y sefydliadau sydd wedi'u rhestru ar sleid 6, sy'n cynnig cymorth a chynghor i bobl sydd mewn dyled. Gallech hefyd roi'r daflen Sefydliadau ariannol i'r dysgwyr, sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt.

Efallai y byddai'n werth egluro wrth ddysgwyr hyn sy'n nes at oedran gwaith bod mwy a mwy o gyflogwyr mawr yn cyflwyno strategaethau llesiant ariannol ar gyfer eu gweithwyr. Maen nhw'n aml yn gweithio gyda phartneriaid ac arbenigwyr allanol i ddarparu adnoddau ac addysg ariannol am ddim i weithwyr, gan gynnwys Rhaglenni Cymorth i Weithwyr sy'n darparu addysg a chymorth ariannol.

GWEITHGAREDD YMESTYNNOL DEWISOL

Os oes gennych chi amser dros ben a bod modd i chi fynd ar y rhyngwrwyd, anogwch barau i edrych ar bob un o'r sefydliadau sydd wedi'u nodi ar sleid 6 a'r daflen. Gofynnwch iddyn nhw nodi:

- Pa wasanaethau maen nhw'n eu darparu?
- Ydy eu gwybodaeth yn hawdd ei deall ac ar gael yn rhwydd?
- Oedd hi'n hawdd defnyddio'r wefan a dod o hyd i gyngor?
- Oedden nhw wedi sôn am unrhyw beth gwahanol nad oeddech chi'n ei ddisgwyl?

MANTEISION CYNILO >



AMSER

10 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint Gwasanaethau ariannol



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Manteision cynilo arian

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Eglurwch i'ch dysgwyr ein bod ni i gyd yn gwybod bod angen arian arnon ni ar gyfer eitemau hanfodol, ond mae angen arian arnon ni hefyd ar gyfer pethau annisgwyl neu nad oedd modd eu rhagweld. Bydd cynllunio a threfnu'ch arian ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol hefyd yn eich galluogi i fforddio'r pethau moethus neu'r pethau rydych yn dyheu amdanyn nhw, fel car neu wyliau. Dyna pam mae'n bwysig i chi glustnodi'ch arian yn ddoeth a cheisio cynilo. Dydych chi byth yn rhy ifanc i ddechrau cynilo!
2. Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am resymau pam mae cynilo'n bwysig, ac am fanteision cynilo. Gallent nodi eu syniadau ar bapur, neu ddim ond eu trafod. Dangoswch yr awgrymiadau ar sleid 7 i helpu i greu syniadau.
3. Dylech annog y parau i rannu eu syniadau. Atebion posibl:
 - Rhwyd wrth gefn – Mae argyfyngau yn gallu codi lle bydd angen arian arnoch chi. Er enghraifft, rydych chi'n torri'ch ffôn, mae trafndiaeth gyhoeddus yn cael ei chanslo felly mae angen i chi gael tacsï, ac ati. Felly os oes gennych chi gynilion, maen nhw'n rhwyd wrth gefn pan fydd angen i chi gael arian rhywsut. Mae'n ddefnyddiol cael hynny wrth gefn!
 - Cynilo ar gyfer nod tymor byr – Efallai fod gennych chi nod mewn golwg – ee, mynd ar wyliau neu i gyngerdd – felly bydd cynilo yn eich helpu i wneud y pethau rydych chi'n eu hoffi.
 - Cynilo ar gyfer angen yn y dyfodol – Mae pobl yn rhoi arian i gadw i gynilo ar gyfer angen yn y dyfodol, er enghraifft prifysgol, priodas, ymddeoliad, ac ati. Mae cynilo arian yn rhoi opsiynau i chi, a does dim rhaid i chi boeni am broblemau'n codi.
 - Cynilo i gael tawelwch meddwl – Os nad oes gennych chi ddigon o arian ar gyfer y pethau sydd eu hangen arnoch mewn bywyd, gall hynny achosi straen. Os ydych chi'n gwybod bod gennych chi gynilion wrth gefn, mae'n debygol y byddwch chi'n poeni llai am arian.
4. Er bod cynilo'n bwysig, eglurwch ei bod hi'n aml yn gallu bod yn anodd i bobl os ydy arian yn brin a/neu os nad ydyn nhw'n gwybod beth ydy'r ffyrdd gorau o gynilo. Trafodwch yr awgrymiadau cynilo ar sleidiau 8-9 y cyflwyniad ategol.

Os ydy'r dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny, gallech ofyn iddyn nhw ddweud a ydyn nhw wedi rhoi cynnig ar unrhyw un o'r awgrymiadau cynilo hyn, ac a oedden nhw'n effeithiol ai peidio.

CAEL BENTHYG ARIAN



AMSER

20 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint Gwasanaethau ariannol
- ✓ Taflen waith Rhybuddion
- ✓ Taflen waith Astudiaethau achos (dewisol)



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Manteision cael benthyc arian
- ✓ Anfanteision cael benthyc arian

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Os ydy'r dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus i rannu, gofynnwch a ydyn nhw erioed wedi cael benthyc arian gan rywun ar gyfer nod penodol. Gallai fod yn arian gan eu rhieni/gofalwyr i dalu am docyn cyngerdd neu i brynu treinyrs newydd. Neu gallai fod yn arian gan ffrind nes byddan nhw'n cael eu cyflog neu bres poced wythnosol.

Os nad ydy'r dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus yn trafod eu profiadau personol o gael benthyc arian, trafodwch sefyllfaoedd damcaniaethol lle byddai oedolion a phobl ifanc yn cael benthyc arian.

2. Edrychwch ar sleidiau 10-11 y cyflwyniad ategol, sy'n rhestru'r cwestiynau y dylech eu hystyried wrth benderfynu ai cael benthyc arian ynteu gynilo ydy'r peth gorau i'w wneud.

3. Gan ddefnyddio'r wybodaeth ar sleidiau 10-11, anogwch y dysgwyr i nodi'r ymateb cywir ar gyfer pob senario (i osgoi bod mewn dyled) ar y daflen waith Rhybuddion.

Efallai y byddwch chi am fynd drwy senario A gyda'ch gilydd fel grŵp, cyn gofyn i'r grŵp ymateb i'r ddwy senario arall mewn paru.

SENARIO	YMATEB POSIBL
A	Eglurwch i'r cynorthwydd cwsmeriaid eich bod chi'n iau nag 16 oed, ac nad ydych chi'n gymwys i gael cerdyn siop. Ond os byddech chi'n 16 oed, dyma rai o'r cwestiynau i'w gofyn: <ul style="list-style-type: none">• Fyddai'n rhaid i chi dalu'r swm llawn erbyn diwedd y tri mis?• Beth fydd yn digwydd ar ôl tri mis os na allwch chi dalu'r swm?• Beth ydy'r APR (cyfradd llog ganrannol flynyddol - cyfanswm cost benthyc am flwyddyn) ar ôl y cynnig arbennig o dri mis?• Beth ydy'r broses o ganslo'r cerdyn?• Fyddai'n rhaid i chi gael y cerdyn am gyfnod penodol?• Fyddai angen i chi gael llofnod rhiant/gwarcheidwad?

SENARIO	YMATEB POSIBL
B	<p>Byddai angen i chi ofyn y cwestiynau canlynol, a holi ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ydy'r ffioedd misol ar gyfer y ffôn symudol yn uwch na rhai'ch darparwr presennol, neu'n debyg? • Ydy'r wefan yn un ddilys/go iawn? (Yn dilyn y patrwm https://... ac ati?) • Ydy'r wefan yn ddiogel (clo i'w weld)? • Beth mae'r telerau ac amodau'n ei ddweud? • Fyddai'n rhaid cael ffôn â manyleb sylfaenol ac o fath penodol er mwyn cael y cynnig hyrwyddo yma? • Am faint mae'r cynnig hyrwyddo'n para? • Oes angen i'r ffôn fod mewn cyflwr da? Beth fydd yn digwydd os ydy'r sgrin wedi torri – fyddai'r ffôn yn cael ei dderbyn? Darllenwch y telerau ac amodau. • Beth ydy'r broses ar gyfer gwneud hyn? Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd? • Pa ddogfennau sydd eu hangen er mwyn uwchraddio? • Oes yna adran Cwestiynau Cyffredin ar y wefan? • Sut gallwch chi gysylltu â nhw os bydd problem? • Fyddai angen i chi gael caniatâd rhiant/gwarcheidwad/gofalwr i gael y cynnig hyrwyddo yma?
C	<p>Byddai angen i chi ofyn y cwestiynau canlynol, a holi ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Am faint mae'r cynnig hyrwyddo gyda llog o 0% yn para? • Oes angen i chi dalu swm penodol bob mis i dalu'r ddyled? • Beth fydd yr APR (cyfradd llog ganrannol flynyddol) ar ôl i'r cynnig hyrwyddo ddod i ben? • Fydd y cerdyn credyd yn eich digolledu os bydd eich cwmni gwyliau'n mynd i'r wal, neu os bydd argyfwng sy'n eich atal rhag mynd?

4. Dylech annog y dysgwyr i rannu eu barn. Eglurwch fod y senarios yn tynnu sylw at fanteision ac anfanteision cael benthycy arian. Er enghraifft, os ydy'r gyfradd llog yn isel a'ch bod yn gallu fforddio talu'n ôl yr arian rydych wedi ei fenthycy, mae cael benthycy arian yn gallu rhoi cyfle i chi wneud rhywbeth rydych chi'n dymuno ei wneud, heb orfod cynilo am amser hir – hynny ydy, mynd ar wyliau yn senario C. Ond, os na fydddech chi'n gallu talu'n ôl yr arian rydych wedi ei fenthycy a bod y gyfradd llog yn uchel, yn y pen draw byddai arnoch chi fwy o arian na'r hyn roeddech wedi ei fenthycy yn y lle cyntaf, a byddai cynilo wedi bod yn benderfyniad gwell.

5. Gofynnwch i'r dysgwyr rannu unrhyw rai o fanteision ac anfanteision eraill benthycy maen nhw'n gallu meddwl amdany'n nhw. Gallent fod yn fanteision ac anfanteision cael benthycy arian gan fenthycwyr eraill, fel gwystlwyr (pawnbrokers), teulu a ffrindiau (ee, os na allwch chi dalu'n ôl yr arian rydych chi'n ei fenthycy, efallai y byddwch chi'n ffræo gyda'ch ffrind) neu gwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog (ee, mae'n anodd dros ben talu'r benthyciadau'n ôl oherwydd cyfraddau llog uchel iawn). Os oes modd iddyn nhw fynd ar y rhyngwyd, efallai y byddan nhw am ymchwilio ymhellach i hyn ar wefannau, fel:

- <https://www.moneyhelper.org.uk/en/everyday-money/credit-and-purchases/should-you-borrow-from-family-or-friends?source=mas#>
- <https://personal.natwest.com/personal/borrowing-needs/ways-to-borrow.html>

GWEITHGAREDD YMESTYNNOL DEWISOL

Os ydy'ch dysgwyr yn 16 oed a hŷn, os oes gennych chi amser dros ben a/neu os ydych chi'n meddwl y bydden nhw'n elwa o weithgaredd arall sy'n datblygu eu sgiliau rheoli arian, gwnewch y gweithgaredd Astudiaethau achos.

Anogwch eich dysgwyr i ddarllen astudiaethau achos Rosie a Callum, ac i ateb y cwestiynau ar y daflen waith Astudiaethau achos. Trafodwch eu hymatebion i sicrhau bod ganddyn nhw ddealltwriaeth dda o sut gellid rheoli arian ym mhob sefyllfa.

CYNGOR ARIANNOL I BOBL IFANC! >



AMSER

Yn dibynnu



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad PowerPoint Gwasanaethau ariannol
- ✓ Cyfrifiadur â mynediad i'r rhyngwrwd (dewisol)
- ✓ Yr adnoddau ar gyfer y gweithgaredd a ddewisir yng ngham 2



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Rhoi enghreifftiau o wasanaethau ariannol sy'n cael eu darparu gan fanciau a chymdeithasau adeiladu
- ✓ Manteision cynilo arian
- ✓ Manteision cael benthyg arian
- ✓ Anfanteision cael benthyg arian

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Eglurwch i'r grŵp y byddan nhw'n cyfuno'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn y sesiwn yma i greu mudiad newydd sy'n cynnig cyngor ariannol! Dangoswch sleid 12 y cyflwyniad iddyn nhw, sydd hefyd yn dangos y cyfarwyddiadau ar gyfer y dasg yma.

Mae ymchwil wedi dangos bod pobl ifanc yn fwy tebygol o wrando ar eu cyfoedion. Felly, mae cyfle gwych i fudiad o bobl ifanc addysgu a hysbysu eu cyfoedion am gynilo a chael benthyg arian.

Mae entrepreneur cymdeithasol o fri wedi cysylltu â chi i ofyn i chi sefydlu mudiad elusennol sy'n ymweld ag ysgolion a cholegau, ac yn cynnig cyngor ariannol am ddim i bobl ifanc!

2. Eu tasg nhw, mewn grwpiau o 3-4 neu'n unigol, ydy creu gwers/cyflwyniad y byddai eu mudiad elusennol yn ei roi i ysgol neu goleg.

Byddai'n gallu bod ar ffurf:

- PowerPoint neu gyflwyniad tebyg
- Fideo (cofiwch gael caniatâd y rhieni/priodol os bydd y dysgwyr yn dewis gwneud hyn)
- Araith/sgript gyda deunyddiau ategol (taflenni ac ati)

3. Eglurwch i'r dysgwyr fod angen i'w gwers/cyflwyniad gynnwys yr wybodaeth ganlynol (sydd hefyd wedi'i rhestru ar sleid 13 y cyflwyniad ategol):

- Enw a phwrpas eu mudiad (hynny ydy, rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar bobl ifanc i wneud penderfyniadau ariannol doeth)
- Enghreifftiau o'r gwasanaethau ariannol mae banciau a chymdeithasau adeiladu'n eu darparu
- Pam mae cynilo arian yn syniad da (hynny ydy, y manteision)
- Dwy ffordd wahanol o gael benthyg arian (hynny ydy, banciau, ffrindiau, ac ati), a manteision ac anfanteision y naill a'r llall (beth ddylai pobl ifanc gadw llygad amdano?)

4. I gwblhau'r dasg yma, gall eich dysgwyr ddefnyddio eu nodiadau ar gyfer y sesiwn yma ac, yn ddelfrydol, dylent ddefnyddio'r rhyngwyd i wneud rhagor o ymchwil.
5. Os ydych chi eisiau i'ch dysgwyr ymarfer eu sgiliau cyflwyno, dylech eu hannog i rannu eu cyflwyniadau â gweddill y grŵp. Ceisiwch greu trafodaethau ac adborth, a chynnal sesiwn holi ac ateb ar ôl i bob grŵp/ unigolyn wneud eu cyflwyniad. Gallech ganolbwyntio ar y canlynol:
 - Beth oedd yn effeithiol am eu cyflwyniad/gwers?
 - Fyddai'n denu pobl ifanc eraill i ddysgu am gyllid?
 - Oedden nhw'n cyflwyno'n glir ac yn hyderus?
 - Oedd y cyflwyniad/gwers yn rhoi sylw i'r holl feini prawf hanfodol?

AWGRYM I'R HWYLUSYDD

Os ydy'ch dysgwyr yn gweithio tuag at y cymhwyster, byddai'r cyflwyniad PowerPoint/fideo/ sgrïpt gyda deunyddiau ategol yn gallu cael eu defnyddio i helpu i ddangos eu dealltwriaeth o'r meini prawf asesu.



DIRWYN I BEN >



AMSER

10 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Taflen waith Adduned cynilo
- ✓ Cyflwyniad PowerPoint Gwasanaethau ariannol

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Gofynnwch i'r grŵp bwysu a mesur yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu a'i drafod yn y sesiwn yma. Eglurwch mai un o ddibenion y sesiwn oedd eu helpu i ddeall sut i sicrhau llesiant ariannol da.
2. Gofynnwch i'r dysgwyr beth maen nhw'n meddwl mae llesiant ariannol da yn ei olygu. Eglurwch fod llesiant ariannol yn derm sy'n disgrifio perthynas pobl ag arian, a phethau braf ac arwyddocaol yn eu bywyd. Mae'n gysylltiedig â theimlad o reolaeth dros eu dyfodol ariannol.
3. Dangoswch i'r dysgwyr y raddfa llesiant ariannol ar sleid 14 y cyflwyniad ategol. Eglurwch fod gan rywun sy'n agos at 10 ar y raddfa:
 - Nodau ariannol tymor byr, tymor canolig a thymor hir
 - Cynilion rheolaidd sydd ar gael yn rhwydd ac wedi'u cloi er mwyn cael mwy o log
 - Dealltwriaeth wych o'u holl wariant, ac mae'n gwneud penderfyniadau bob dydd am eu gwariant yn y dyfodol
 - Diddordeb mewn ymchwilio i bynciau cyllid sy'n ddieithr iddyn nhwAr y llaw arall, mae rhywun sy'n agos at 1 ar y raddfa:
 - Yn byw i'r foment, ac nid yw'n ystyried yr hyn mae'n ei wario neu'n ei gynilo
 - Yn rhy ofnus i holi am ei sefyllfa ariannol o bosibl, ac yn rhoi ei ben yn y tywod
 - Wir o'r farn nad ydy arian yn bwysig i'w hapusrwydd, ac yn ddyfeisgar/creadigol wrth fyw o ddydd i ddydd
4. I'w helpu i fod yn agos at 10 ar y raddfa llesiant ariannol, dywedwch wrth y dysgwyr y bydden nhw'n gallu dechrau gwneud nodau cynilo. Dylech eu hannog i nodi eu nod cynilo, a'r camau i'w gyrraedd, ar y daflen waith Adduned cynilo.